Y BEDOL

wyd
asus

ym
olew
vr neu 2 nionyn canolig

i nes eu bod yn feddal.

yw iâr yn gwibiau a'u
dig.
res ac ychwanegu'r

wrdd o bowdwr cyri (gan
mor boeth hoffwch eich

o flawd plaen
sinsir
sinamon
o siytni mango
de o siwgwr (opsiynol)
atos
c cyw iâr
ir

ymysgedd a'i fud-ferwi am
unud cyn gwneud yn siwr
r wedi'i goginio drwyddo.
reis brown.


mas

CAFFI TRWSIO RHUTHUN

Deliwyd hefo 50 o eitemau mewn un diwrnod sydd yn record.

Syniad Jozsef Vass oedd sefydlu **Repair Café** Rhuthun a Chyfeillion y Ddaear fu'n gyfrifol am ei drefnu. Ar y dechrau dim ond ychydig o wirfoddolwyr ac ychydig o eitemau a gafwyd. Ond bellach y mae wedi tyfu y tu hwnt i bob disgwyl yn ei gartref misol yng Nghanolfan Naylor Leyland. Ym mis Mawrth eleni fe ddeliwyd hefo 50 o eitemau gan dîm o 24 o wirfoddolwyr gyda llwyddiant o 83%.





Yn 2021 Anne Lewis gymrodd y cyfrifoldeb o redeg y **Repair Café**. Hi sydd yn cyd-gordio 26 o wirfoddolwyr rheolaidd, cysylltu gyda'r rhai sy'n rhoi llety i'r **Café**, yn sgwrsio hefo'r cwsmeriaid, yn ateb problemau, yn trafod hefo rhwydwaith o grwpiau lleol, a hi ydy'r prif gynheiliad sydd yn gofalu fod y fenter yn rhedeg yn esmwyth. Dywed "Ers yn blentyn rydw i wedi bod yn fawr fy ngofal o natur a'r amgylchfyd naturiol ehangach. Rydw i wedi bod ynghlwm wrth grwpiau cadwraeth natur ac amgylcheddol ers yr 80au. Gan fy mod i bellach wedi ymddeol rydw i'n awyddus i ddefnyddio fy amser rhydd i fod yn fwy actif yn y grwpiau hyn."

Mae Anne yn ymfalchïo yn ei thîm **Meet and Greet**. Rhain yw dewrion tawel y prosiect. Y tîm yw Raj Landa, Janet Steel, Brian Peters a Stephen Hoyle. Dywed Anne: "Y tîm hwn yw wyneb y **Repair Café**. Y nhw sy'n croesawu ac yn tywys ymwelwyr drwy'r broses o ddelio hefo'r eitemau. Cynnwys hyn y weithred o lenwi ffurflen drwsio ar y dechrau un, cofnodi'r eitemau ar siart datblygiad, a sicrhau fod y trwsio'n cael ei recordio'n ddigidol ar y terfyn. Yn ychwanegol, gwnant waith da o dracio a symud eitemau'r cwsmeriaid trwy'r broses, lleihau yr amser aros a chadw ein harbenigwyr yn brysur drwy'r amser!"

Yn Amsterdam yn Hydref 2009 y sefydlwyd y **Repair Café** cyntaf un gan Martine Postma a gafodd y syniad gwreiddiol. Hi hefyd fu'n gyfrifol am sefydlu **Repair Café International Foundation**. Bellach ceir **Repair Cafes** dros y byd i gyd yn adfer eitemau a fyddai fel arall wedi cael eu taflu o'r neilltu gan gynnwys yr un llwyddiannus yma yn Rhuthun.

Yn ystod y mis hwn yn Rhuthun roedd yr eitemau a adferwyd yn cynnwys cloc oedd yn drysor teuluol, gemwaith o bob math, ukulele, dau gi anwes (teganau!), plât hynafol, a desg fuasai fel arall wedi mynd i'r domen byd. Roedd dau o'r cwsmeriaid wedi mwynhau dysgu sut i drwsio eu heitemau, ac yn edrych ymlaen i wneud eu trwsio eu hunain yn y dyfodol a hynny gartref hefo mwy o hyder.

Mae'r **Repair Café** yn cyfarfod ar y Sadwrn cyntaf ymhob mis yng Nghanolfan Naylor Leyland.

Peter Lund
Swyddog y Wasg.

"Y Bedol" Ebrill (April) 2023